Cyfarfod ar y cyd o'r Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd a'r Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant

Dydd Mercher 1 Mai 2019

Tŷ Hywel

12.00 - 13.30

Dan gadeiryddiaeth Mark Isherwood

Yn bresennol: Elinor Crouch-Puzey, Zoe Richards, Natasha Hirst, Samantha Williams, Miranda Evans, Simon Green, Lizzy Fauvel, Tina Reece, Hilary Watson, Bethan Sayed AC (Cyd-Gadeirydd), Sarah Keef, Mandi Glover, Vicky Snook, Helen Mary Jones AC, Melissa Wood, Gwendolyn Sterk, Sophie Weeks, Bethan McMinn, Sian Davies, Gauri, Heather Kiltie, Julie Richards, Iwan Williams, Sian Vining, Paul Hossack.

Ymddiheuriadau: Helen Jones AC, Fflur Emlyn, Sara Flay, William Fawcett, Wendy Ashton, Jane Ruthe, Lynne Ryan, Llyr Grufydd AC, Ann Dann, Swyddfa'r Comisiynydd Dyfodol Gen, Shahien Taj OBE, Emmy Chatwer.

<u>Cyflwyniadau:</u>

Lansio'r Adroddiad - Cefnogi Pobl Anabl sy'n Dioddef Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru. Cydnabod nad yw systemau a rhaglenni cyfredol bob amser yn deall y risg uwch i bobl anabl a chlywed yr argymhellion.

**Tina Reece**, Cynigiodd y Pennaeth Ymgysylltu gyflwyniad i Gymorth i Fenywod Cymru yng Nghymru a thynnodd sylw at ddeddfwriaeth 2015 sy'n unigryw i Gymru. Mae'n amlinellu bod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i atal a bod hynny'n agwedd bwysig ar y ddeddfwriaeth.

Yn dilyn darn o waith a wnaed yn flaenorol gan Anabledd Cymru a Phrifysgol Caerdydd yn 2011, roedd hwn yn gyfle i ail-ymweld â hynny a gwthio ymlaen â chyfleoedd newydd.

**Elinor Crouch-Puzey** arweiniodd ni drwy ganfyddiadau allweddol yr adroddiad:

Mae prif ganfyddiadau'r adroddiad yn cynnwys y rhai canlynol:

- Prin oedd y data a oedd ar gael ar nifer yr achosion o gam-drin domestig a ddioddefwyd gan fenywod anabl yng Nghymru, sydd ei angen i lywio polisi ac arfer ym maes cam-drin domestig.
- Teimlai goroeswyr nad oeddynt weithiau’n cael eu cymryd o ddifrif wrth geisio cymorth cam-drin domestig gan gyrff statudol.
- Un o'r themâu a ddaeth i'r amlwg oedd anfodlonrwydd ag ymateb yr heddlu wrth riportio camdriniaeth. Daeth hyn i'r amlwg yn adroddiad 2011 hefyd.

- Roedd lefelau anghyson o ymgysylltu a holi am gam-drin gan wasanaethau gofal sylfaenol (hy Meddyg Teulu, Damweiniau ac Achosion Brys) pan oedd menywod anabl yn ceisio cymorth ar gyfer trais yn erbyn menywod.
- Roedd diffyg gwybodaeth hygyrch am gam-drin domestig mewn amrywiaeth o fformatau.
- Roedd anghysondebau yn ymateb cyrff statudol i gam-drin domestig.
- Prin oedd y mynediad i dai hygyrch ac nid oedd llety diogel, brys, ar gael ychwaith ar gyfer diwallu gofynion mynediad menywod anabl.
- Dim ond 33 y cant o oroeswyr anabl a oedd wedi cael eu cyfeirio at wasanaeth VAW arbenigol neu wedi cael mynediad ato.
- Soniodd darparwyr gwasanaeth bod capasiti ac adnoddau prin yn un o'r prif rwystrau a oedd yn eu hatal rhag gwneud addasiadau i'r amgylchedd adeiledig i wella mynediad ffiesgol er budd menywod anabl sydd wedi goroesi camdriniaeth.
- Er gwaethaf yr adnoddau cyfyngedig, tynnodd aelodau Cymorth i Fenywod Cymru sylw at y camau a gymerwyd ganddynt i sicrhau'r gefnogaeth fwyaf posibl i oroeswyr anabl.

**Miranda Evans** trafod yr argymhellion:

Gyda chynorth adborth gan oroeswyr a gwasanaethau arbenigol, mae Anabledd Cymru a Chymorth i Fenywod Cymru yn gwneud yr argymhellion allweddol a ganlyn yn seiliedig ar yr arolwg hwn (mae rhagor o argymhellion ar ddiwedd yr adroddiad hwn):

- Rydym yn galw am ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl (UNCRDP) ym mholisi a deddfwriaeth Cymru. Mae'r UNCRDP yn cyfeirio'n benodol at y gwahaniaethu lluosog a wynebir gan fenywod anabl ac yn galw am fesurau llywodraethol priodol i sicrhau bod menywod yn cael eu datblygu, eu hybu a'u grymuso'n llawn (Erthygl 6). Mae hefyd yn datgan hawl pobl anabl i ryddid rhag camfanteisio, camdriniaeth ac arteithio o fewn a thu allan i'r cartref (Erthygl 16). Dylai'r UNCRPD gael ei gydnabod a'i weithredu'n llawn trwy bolisïau a gwasanaethau i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
- Dylai asiantaethau weithio i nodi goroeswyr anabl a'u profiadau o gam-drin cyn gynted â phosibl, drwy wneud ymholiadiau, a sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi i ddeall a gwybod sut i liniaru a lleihau'r rhwystrau penodol hynny sy'n atal pobl anabl rhag datgelu.
- Mae angen i asiantaethau gydnabod y ffurfiau penodol y gall trais yn erbyn menywod anabl eu cymryd.
- Bydd gwybodaeth hygyrch am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar gael mewn amrywiaeth o fformatau.
- Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd wedi'u hanelu at fynd i'r afael â cham-drin domestig i gynnwys pobl anabl ac amrywiaeth ar draws gwahanol fathau o namau mewn gwahanol gymunedau, gan gydnabod nad yw pobl anabl i gyd yr un fath.
- Cyhoeddusrwydd a deunyddiau i gynnwys negeseuon sy'n lliniaru a herio mythau sy'n beio dioddefwyr.
- Dylai asiantaethau gofnodi ac adrodd yn rheolaidd ar wybodaeth am nodweddion goroeswyr a throseddwyr h.y. rhyw, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, ethnigrwydd, statws mewnfudo ac anabledd – i hoelio sylw ar yr hyn y mae angen i asiantaethau ei wneud yn well a sut y dylent addasu i anghenion yn hytrach na disgwyl i bobl addasu iddynt.

Yna cyflwynodd **goroeswr** fideo o'i phrofiad a siaradodd am sut y defnyddiwyd ei hanabledd yn ei herbyn yng nghyd-destun camdriniaeth a rheolaeth orfodol. Fel rheoli ei mynediad at ddyfeisiau cyfathrebu a thanseilio ei chof o ddigwyddiadau, drwy awgrymu nad oedd wedi clywed pethau'n iawn.

Soniodd Samantha Williams am yr angen am addysg gynnar i fenywod ag anabledd dysgu i ddeall perthnasoedd iach. Siaradodd am faterion penodol gyda:

- Lefelau deall beth yw perthynas iach
- Peidio â rheoli eu bywydau
- Bod yn agored i niwed ac felly eu targedu
- Peidio â chael gwybodaeth hygyrch
- Methu â chael eu credu
- Cylchoedd cymdeithasol cyfyngedig

Cwestiynau a sylwadau:

Bellach mae adnodd Hawdd ei Ddarllen ar gael gan CDAS a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Phobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin.

Gofynnodd Iwan Williams ai’r un yw’r heriau ym mhob rhan o Gymru neu a oes amrywiadau rhanbarthol?

Atebodd Eli fod problemau wedi bod mewn ardaloedd gwledig erioed.

Holodd Bethan Sayed AC am ganlyniadau achos Chris Wade ac a oedd yr adroddiad yn ymdrin â'r persbectif sefydliadol.

Cododd Simon Green y pwynt nad yw llawer o bobl anabl yn deall ddigon am gamdriniaeth er mwyn ei riportio.

Gwnaeth Gauri bwynt sylweddol am rôl addysg gynnar mewn perthynas iach. Gofynnodd Sian Davies faint o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg oedd yn bobl ag anabledd dysgu?

**Camau gweithredu**

- Ysgrifennu at y Gweinidog Tai a’r Gweinidog Iechyd a'r Prif Chwip i ofyn am gyfarfodydd
- Ysgrifennu at y pedwar CHTh yng Nghymru i ofyn am gyfarfodydd ynghylch ymateb yr heddlu
- Ysgrifennu at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a’r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon a gofyn am i'r adroddiad gael ei ystyried fel eitem agenda yn y dyfodol.
- Anfon yr adroddiad at bob AC a gofyn iddynt fwrw ymlaen â'r argymhellion yn eu gwaith

Unrhyw fater arall

Cafwyd cyflwyniad pum munud gan Bethan McMInn am brosiect o'r enw byd Oshi.

Mae’r manylion i'w gweld yma: https://www.oshisworld.org/

Diolchodd Mark i'r rhai a oedd yn bresennol a'r gefnogaeth a ddangoswyd ar gyfer yr adroddiad.